

CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07786 662905

cyngorybala@outlook.com

Cofnodion o Gyngor Tref Y Bala, Chwefror 6ed, 2014

Presennol: Y Maer, Dorothi Evans, Y Dirprwy Faer, Ivora Jones, Dilys Evans, Dilwyn Jones, Eluned Jones, Alun Price, Edith Roberts, Eifion Roberts, John C Williams, Y Cyngorydd Dilwyn Morgan, Y Clerc, Lis Puw.

Ymddiheuriadau:

1. Estynnodd y Maer groeso cynnes i bawb ac yn arbennig i gynrychiolwyr yr Heddlu, sef Lona Davenport ac Iwan Roberts.
2. Adroddodd cynrychiolwyr yr Heddlu am y cyfnod cymharol dawel presennol hwn; dywedwyd bod gwyliadwriaeth yn cael ei gadw ar oryrru ar hyd ffyrdd cefn. Tynnwyd sylw at oryrru yn gynnar yn y bore - bydd y sylw yn cael ei gyfeirio at "Gan Bwyll". Trafodwyd hefyd broblemau traffig wrth Ysgol Bro Tegid. Soniwyd am un tenant gwrth cymdeithasol sydd wedi colli ei gartref yn y Bala, ac ni fydd yn cael cartref cymdeithasol arall yng Ngwynedd oherwydd ei ymddygiad. Diolchwyd i'r ddau am eu gwaith dygn yn cadw llygad ar y dref a'r ardal o gwmpas.
3. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
4. Derbyniwyd datganiad buddiant gan J C Williams ar fater cynllunio Cais NP5/53/447A.
5. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Ionawr 2il, 2014.
6. Nid oedd materion yn codi o gofnodion Ionawr nad oedd eisoes ar yr Agenda.
7. Derbyniwyd ateb gan Dylan Wynn Jones, Swyddog Trafnidiaeth gyda Chyngor Gwynedd yn egluro rôl y Cyngor wrth iddynt ymateb i gais cynllunio ar gyfer newid defnydd y Co-op arfaethedig. Adroddodd y Cyngorydd Dilwyn Morgan iddo gynnal sawl sgwrs gydag asiant y datblygwr a dod i'r casgliad fod y Cwmni yn barod i gydweithredu'n agos gyda thrigolion Y Bala. **Cytunwyd** i aros i weld beth ddaw o hyn ac wedyn dal i bwysu am groesfan gyda goleuadau.
8. Mae lolo Tegid, (Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru) yn bwriadu ymweld yn fuan i asesu cais y Cyngor Tref am safle parcio dynodedig ar gyfer yr anabl wrth y Co-op; dywedodd Edith Roberts ei bod yn barod i gynrychioli'r Cyngor Tref yn ystod yr ymweliad.
9. **MATER MEWNOL: Cytunwyd i ystyried enwau ar gyfer cyfethol i'r sedd wag yng nghyfarfod mis Mawrth o Gyngor Tref Y Bala.** Nid oedd cais am gynnal etholiad wedi dod i law, ac nid oedd y Clerc wedi derbyn enwau gan bobl yn awyddus i roi eu henwau eu hunain ymlaen ar gyfer cael eu hystyried. Anogwyd y Cynghorwyr i anfon enwau at y Clerc cyn y cyfarfod ym mis Mawrth. GWEITHREDU: CYNGHORWYR
10. Derbyniwyd Adroddiad Is Bwyllgor Delwedd y Dref / Goleuadau ar y Coed. Yn codi o'r drafodaeth, cytunwyd i drefnu cystadleuaeth Addurno Ffenest Siop ar y thema "Dathlu

Dydd Gŵyl Dewi", gyda'r Cyngor yn rhoi'r wobr gyntaf o £50 i'r enillydd ei gyfrannu at elusen o'i ddewis ei hun. GWEITHREDU: CLERC
Cytunwyd i ddefnyddio'r arian a drosglwyddwyd o gyfrif "Ras Llyn Tegid" tuag at brynu goleuadau ar y coed (Trosoglwyddwyd £1,953.85 o'r cyfrif ar 7/10/13) GWEITHREDU: CLERC

11. Materion y Cynghorydd Sir: Bu'r Cynghorydd Dilwyn Morgan yn gwneud llawer o drefniadau gyda gwella delwedd y dref gan gynnwys trwsio a glanhau cerflun Tom Ellis. Bu'n ymwneud gyda thrafodaethau'r ysgol gydol oes. Mae wedi bod mewn trafodaethau am ddyfodol y Ganolfan Ymwelwyr a Neuadd Buddug. Rhoddodd wybodaeth am gyfarfodydd "Heneiddio'n Dda" yng Nghanolfan Bro Tegid bob dydd Iau (ar gyfer pobl dros 50 oed). Adroddodd fod y gwaith ym Mro Eryl wedi cychwyn. Canmolodd y nifer da o'r cyhoedd sydd yn awr yn rhoi gwybodaeth iddo ef neu i'r Swyddog Gorfodaeth Stryd am berchnogion cŵn sy'n baeddu. Erbyn hyn mae'r caeau rygbi a chriced wedi eu dynodi fel ardaloedd lle na chaniateir cŵn o gwbl, ac mae cosb sylweddol os bydd y rheolau'n cael eu torri. Diolchwyd yn fawr iawn i Dilwyn Morgan am ei waith.

12. Materion lleol y Cynghorwyr Tref:

- i. Cafwyd gwybodaeth fod prosiect Cymdeithas y Beiblau wedi cychwyn yn Eglwys Llanycil.
- ii. Rhannwyd taflenni Teithiau Penllyn a baratowyd gan y Gymdeithas Twristiaeth gyda nawdd y Cyngor Tref. Mynegwyd balchder bod y cyd-fenter wedi bod yn llwyddiant a diolchwyd i bawb a fu'n ymwneud â'r fenter.
- iii. Nodwyd sylw gan aelod o'r cyhoedd ar safon toiledau yn y dref.

13. Materion Cynllunio

- i. Cymeradwywyd cais NP5/53/447A, sef adeiladu adeilad gwasanaethu ceir, Garej Bodolwyn, Heol Arenig
- ii. Nodwyd Ymgynghoriad Parc Cenedlaethol Eryri ar gynlluniau i arbed arian.

14. Materion Cyllid

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.
- ii. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis. (Coed Nadolig, Cyflog y Clerc, Costau'r Clerc, cyfraniad at Ganolfan yr Henblas).
- iii. Nodwyd llythyr AON.
- iv. Derbyniwyd ad-daliad gan Gyngor Gwynedd am waith ar y domen.
- v. Cymeradwywyd llunio ffurflen bwrpasol i'w defnyddio gan fudiadau sydd yn gwneud cais am arian i Gyngor Tref Y Bala. GWEITHREDU: CLERC

15. Gohebiaeth

Cyngor Gwynedd:

- i. Nodwyd holiadur Cyngor Gwynedd am ail-gylchu; mae angen i fwy na'r 50% presennol o drigolion Gwynedd ail-gylchu er mwyn osgoi dirwyon ar y Cyngor a threthi uwch.

- ii. Derbyniwyd gwybodaeth gan Reolwr Cefn Gwlad a Mynediad am adolygu categorïau llwybrau cyhoeddus trwy Wynedd.
- iii. Mewn ymateb i gais Cyngor Gwynedd am farn ar beidio a chodi tâl am barcio yn ystod cyfnod yn arwain at y Nadolig, cytunwyd fod y polisi yn un gwerthfawr ond bod angen arwyddion i ddweud fod y parcio'n ddi-dâl yn ystod y cyfnod hwn.
GWEITHREDU: CLERC

b. Un Llais Cymru

- i. Nodwyd i'r Clerc ateb holiadur ITV am safleoedd claddu.
- ii. Derbyniwyd copïau o "Y Llais".
- iii. Derbyniwyd gwybodaeth am ymgynghoriad ar newidiadau i'r system gynllunio.
- iv. Derbyniwyd gwybodaeth am benodi Aelodau i Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru.
- v. Rhoddodd y Clerc adroddiad o Bwyllgor Ardal Un Llais Cymru yn Nolgellau.

d. Heddlu

- i. Derbyniwyd cynnig yr heddlu i ymweld â'r Cyngor ym mis Ebrill.
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth am Gynllun Heddlu a Throsedd .
- iii. Derbyniwyd gwybodaeth am ddigwyddiad 'Creu'r Cysylltiad' Gyda'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.
- iv. Derbyniwyd gwybodaeth am Gynllun Trechu Trosedd i bobl ifanc 5-18 oed.

e. Eraill

- i. Nodwyd e-bost parthed gohirio llawdriniaethau oddi wrth Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.
- ii. Rhoddwyd sêl bendith mewn egwyddor i ddigwyddiad a drefnir gan Cymdeithas Tai Clwyd i hyrwyddo fflatiau a thai gwag i drigolion lleol.

16. Asedau'r Cyngor

- a. Bydd Sharon Evans yn adrodd ar eu cyflwr yn y cyfarfod nesaf.
- b. Gwaith trwsio ar y domen: roedd parodrwydd i gyfarfod gyda swyddogion Cyngor Gwynedd a CADW i drafod y gwaith sydd angen ei wneud ar ddiogelu'r domen.
GWEITHREDU: CLERC

17. Partneriaeth Penllyn:

Rhoddodd Alun Price adroddiad cynhwysfawr ar waith y Bartneriaeth, gan gynnwys gofal am rai o asedau lleol Parc Cenedlaethol Eryri, gwaith cynnal yn lleol a wneir ar asedau Cyngor Gwynedd a'r gwaith yng Nghanolfan yr Henblas.

Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 6/3/14

Noder: Cynhelir Cyfarfod Cyllid arbennig ar Chwefror 20 yn Ysgol y Berwyn)